

Templed ac Arweiniad Cynllun Busnes

Yn ogystal â chwblhau eich ffurflen gais Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd, bydd angen i chi ddarparu cynllun busnes syml a llif arian. Nid oes angen i Gynllun Busnes fod yn hirwyntog ac yn gymhleth. Y cyfan y mae angen iddo ei wneud yw disgrifio mor glir â phosib yr hyn rydych eisiau ei wneud a'i gyflawni, sut y byddwch yn gwneud hyn, beth mae ei angen i gyrraedd y nod, a manylion incwm a gwariant.

Gallwch ddefnyddio'r templed isod, a chyrchu templedi eraill ac arweiniad pellach gan:

- [Busnes Cymru](#)
- Gwefan www.gov.uk [yma](#)
- [Templed Rhagamcaniad Llif Arian](#)

Enw'r Cwmni *ysgrifennwch*

Cynllun Busnes

[cyfnod y Cynllun – *rhowch ddyddiadau*]

Cyfeiriad Cofrestredig y Busnes a Manylion Cyswllt

1. Cyflwyniad a Throsolwg o'r Cwmni - crynodeb o'ch busnes a'i nodau, sut y dechreuodd a sut mae wedi datblygu

Ysgogiadau:

- *Cyflwynwch eich hun - sgiliau, profiad, hyfforddiant, pam sefydloch chi'r busnes?*
- *Disgrifiad byr o'ch busnes - pwy sy'n gysylltiedig ag ef, beth ydych chi'n bwriadu ei wneud? Beth yw (neu beth fydd) y strwythur rheoli a staffio? Sut mae'r busnes wedi'i drefnu, pa fath o fusnes ydyw? Pa gyfleusterau sydd gennych?*
- *Disgrifiwch eich cynnyrch/gwasanaeth sylfaenol - ac wedyn y mathau gwahanol o gynhyrchion/wasanaethau y byddwch yn eu gwerthu.*
- *Cofiwch esbonio beth sy'n neilltuol am eich busnes chi o'i gymharu â busnesau tebyg. Beth yw ei Bwynt Gwerthu Unigryw?*

2. Y Farchnad a Chystadleuwyr

Ysgogiadau:

- *Manylion eich marchnadoedd targed, sut rydych yn gwybod beth yw anghenion eich cwsmeriaid a sut rydych yn diwallu'r anghenion hynny.*
- *A gyflawnwyd ymchwil farchnata? Beth yw'r bylchau yn y farchnad y byddwch yn eu cyflenwi?*
- *Pwy yw eich cwsmeriaid nodweddiadol, ydyn nhw'n unigolion? Busnesau? Y ddau?*
- *Ble maent yn byw?*
- *Beth sy'n ysgogi eich cwsmeriaid i brynu eich cynnyrch/gwasanaeth?*
- *A oes busnesau eraill sy'n gwneud yr un peth - cystadleuwyr posib? Sut mae eich cynnyrch/gwasanaeth chi'n wahanol?*

3. Strategaeth Gwerthu a Marchnata

Ysgogiadau:

- *Sut ydych chi'n mynd i gyrraedd eich cwsmeriaid? Pam rydych wedi dewis y dull marchnata hwn?*
- *Faint fydd yn costio?*

4. Gweithrediadau a Logisteg

Ysgogiadau:

- *Esboniwch sut rydych yn rhedeg eich busnes - gan gynnwys gwybodaeth am eich lleoliad, adeiladau a chyfarpar, a'ch cynlluniau cynhyrchu, eich cyflenwyr, sut fyddwch yn cludo i gwsmeriaid.*
- *Oes unrhyw ofynion cyfreithiol neu yswiriant? Sut caiff hyn oll ei reoli?*

5. Costau a Strategaeth Brisio

Ysgogiad:

- *Sut ydych wedi creu eich strategaeth brisio - ydych chi wedi ymchwilio i brisiau'ch cystadleuwyr?*

Templed ac Arweiniad Cynllun Busnes

6. Amcanion Blwyddyn 1 ac amserlen gyflwyno

7. Dadansoddiad Risg / SWOT

Ysgogiadau:

- Nodwch y risgiau allweddol y bydd eich busnes yn eu hwynebu a disgrifiwch ba gamau y byddwch yn eu cymryd i ymdrin â'r rhain
- Rhestrwch gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau eich busnes. Pa gamau allwch eu cymryd i ymdrin â gwendidau ac isafu bygythiadau, a mwyafu cryfderau?

8. Materion Cyfreithiol a Chydymffurfio

Ysgogiadau (ni fydd y rhain i gyd yn berthnasol i chi - enghreifftiau'n unig ydynt):

- Oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich adeilad busnes?
- Ydych chi wedi cysylltu â Safonau Masnach? Tîm Iechyd a Diogelwch Bwyd eich awdurdod lleol?
- Os ydych yn cyflogi staff, ydych chi'n gwybod beth yw eich cyfrifoldebau? Ydych chi'n ymwybodol o beth mae angen i chi ei wneud i gydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith? Ydych chi wedi cysylltu â Chyllid a Thollau EM? Mae gan y [wefan Cyllid a Thollau EM](#) lawer o arweiniad defnyddiol.
- Ydych chi wedi trefnu'r holl yswiriant y bydd ei angen arnoch?
- Sut fyddwch chi'n rheoli gwastraff?
- Oes gennych yr holl bolisiau y bydd eu hangen arnoch – gan gynnwys diogelu data a GDPR?

9. Rhagamcaniadau a Chynllunio Ariannol

Ysgogiadau:

- Darparwch ragamcaniad incwm/gwariant a llif arian fesul mis ar gyfer y flwyddyn gyntaf – mae [templed](#) defnyddiol yma os oes angen un arnoch. Beth yw eich targed gwerthiannau 'cwrdd â'ch costau'?
- Esboniwch sut rydych wedi cyfrifo eich costau a'ch llif arian - pa dybiaethau ydych wedi'u gwneud?

10. Atodiadau

Amgawch ddogfennau a thystiolaeth i gefnogi'ch cynllun. Gallai hyn gynnwys ymchwil farchnata, llythyrau o fwriad ac unrhyw archebion pendant sydd gennych, geirdaon, portffolio gwaith blaenorol, dogfennau cyfreithiol, rhestrau prisiau, CV aelodau tîm allweddol a samplau o deunyddiau hysbysebu. Cofiwch groesgyfeirio'r atodiadau i'r adran briodol yn y cynllun busnes.